
# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Chwefror 2025 – Cyfrol 10 – Rhifyn 5 £1


## Ar restr fer gwobrau









Llongyfarchiadau mawr i ddwy siop y pentre ar gael eu henwebu ar gyfer Gwobrau'r Gynghrair Cefn Gwlad. Mae siop Tŷ Ceffyl Bach wedi'i henwebu yn y categori Menter Wledig, a siop y pentre yn y categori Siop/Swyddfa Bost y pentref. Ewch i https://www.research.net/r/CA25walesbiz i bleidleisio. Cewch bleidleisio dros y ddwy siop gan eu bod mewn categorïau gwahanol – anogwch eich teulu, eich ffrindiau a'ch cymdogion i bleidleisio hefyd! Mae'r bleidlais ar agor tan ganol nos, nos Sul, 23 Chwefror a bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi yn y gwanwyn.

# Pytiau newyddion

**Cydymdeimlwn** â Helen a theulu'r diweddar James Scott, Glanywern Cottage.

**Croeso cynnes** i Zeta Jones, Maxime Boucknooge ac Edouard sydd wedi symud i Llawog Isa; i Tom Weyman a Libby Parson-Hann sydd wedi symud i 5 Maes Erw Isaf, ac i Danielle Williams, 6 Maes Erw Isaf.

**Llongyfarchiadau** i Matthew a Nickita Cooke ar enedigaeth ei mab Huw, gor-ŵyr cyntaf i Sylvia Evans, 1 Maes Clwyd.

**Llongyfarchiadau** oddi wrth yr holl deulu a ffrindiau i Richard Roberts (Dic y Fron) ar ddathlu ei ben blwydd yn 90 oed ar 18 Ionawr.




## Townsend Supplies

**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**
**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks


# Eglwys St Cwyfan

| | | |
|---|---|---|
| $2^{il}$ | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| $9^{fed}$ | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| $16^{eg}$ | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| $23^{ain}$ | 11.15 | Cymun Bendigaid |

Mae Angie Hughes, Tŷ Ceffyl Bach, yn hynod ddiolchgar am yr holl gefnogaeth i'r bore coffi i godi arian at y Spinal Injuries Association. £585 oedd y cyfanswm a godwyd.

****Newydd** – Clwb Sgrabl**

Croeso cynnes i chi i Ystafell Gymunedol y Siop dydd Iau 20 Chwefror am 2pm i chwarae sgrabl a gemau bwrdd eraill.

## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 12.30pm |
| Sul | 9.30am – 12pm |

07301 573362
01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

**Oriau agor y swyddfa bost**

Llun – Gwener 9am – 5.30pm
Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost.

Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun | 3ydd | Grŵp gweu a chrosio, 10am<br>Trefoil Guild, 2pm |
| Maw | 4ydd | Clwb Llyfrau, 10am<br>Sefydliad y Merched, 7pm |
| Mer | 5ed | Cyfarfod pwyllgor Llais Llandyrnog, 7pm |
| Iau | 6ed | Merfyn Parry, 9am–1pm<br>Cyfarfod pwyllgor yr Eglwys, 7pm |
| Llun | 10fed | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Mer | 12fed | Undeb y Mamau, 2pm |
| Llun | 17eg | Grŵp gweu a chrosio, 10am |
| Maw | 18eg | Clwb Llyfrau, 10am<br>Cyfarfod y Cyngor Cymuned, 7pm |
| Mer | 19eg | Tuesday Club, 2pm |
| Iau, | 20ain | Gweithdy crefftau, 6–9pm |
| Sad | 22ain | Grŵp crefftau, 10am–12pm |
| Llun | 24ain | Grŵp gweu a chrosio, 10am |

# SP Energy Networks - Noson Wybodaeth

Efallai eich bod chi'n gwybod y bydd grŵp OCU yn gwneud gwaith hanfodol ar ran SP Energy Networks i'ch cyflenwad trydan cyfredol.

Rydyn ni'n trefnu digwyddiad cymunedol yn Neuadd y Pentref, nos Fawrth, 25 Chwefror a fydd yn gyfle i drigolion alw draw rhwng 17:00 a 19:00 i drafod y cynlluniau i uwchraddio'r systemau trydanol yn eich cartrefi. Bydd hwn yn gyfle i chi ddysgu rhagor am y gwaith fydd yn cael ei wneud, gofyn cwestiynau a rhannu eich adborth. Byddwn hefyd yn casglu manylion cyswllt i sicrhau ein bod yn gallu cadw mewn cysylltiad â phawb ac i drefnu apwyntiadau i newid y cyflenwad trydan.

Ffoniwch ni ar 0845 330 8615 neu anfonwch neges at enquiries@ocugroup.com am ragor o wybodaeth.

Cofion cynnes,
Grŵp OCU

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sad 1af | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Llun 3ydd | Brownies<br>Côr | 5.30–7pm<br>7.30–9.30pm |
| Mer 5ed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sul 9fed | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun 10fed | Brownies<br>Côr | 5.30–7pm<br>7.30–9.30pm |
| Mer 12fed | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Llun 17eg | Brownies<br>Côr | 5.30–7pm<br>7.30–9.30pm |
| Mer 19eg | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sul 23ain | Parti pen blwydd | 10.30–1.30pm |
| Llun 24ain | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 25ain | Sesiwn galw heibio Scottish Power/OCU Group | 5–7pm |
| Mer 26ain | Pilates | 7.15–8.15pm |

**I hurio Neuadd y Pentre, cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com**

**I hurio'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk**

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies, Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Jane Borthwick.
Anfonwch erthyglau neu newyddion at llandyrnognews@gmail.com

# Gwireddu breuddwyd (rhan 1)

Sawl tro ryden ni wedi breuddwydio am antur ac yna dod o hyd i gant a mil o esgusion i'w ohirio? Felly, mae'n aros yn freuddwyd! Ond fel mae amser yn mynd rhagddo a ninne'n dathlu pen blwydd arall, neu falle'n colli aelod o'r teulu neu ffrindiau'n 'rhy gynnar o lawer', rydym ni'n ail-ymweld â'r breuddwydion hynny a gofyn 'wel pam lai, rŵan?' Falle, y daw amser mewn bywyd pan mae'r meddwl yn dal i fwynhau teithio ond bod iechyd yn ein cyfyngu?

Dyna rywsut sut y gwnaethom ni fwcio ein taith ddelfrydol fyddai'n ein tywys i 'Gyfandir Gwyn' yr Antarctica. Dim ond am ychydig o resymau y gallwch chi ymweld ag Antarctica; falle fel aelod o'r fyddin, archwiliad ac ymchwil gwyddonol neu fel y gwnaethom ni, fel rhan o fordaith ymchwiliad gwyddonol. Roedd ein taith i Ynysoedd y Falklands, De Georgia a Phenrhyn Antarctica yn golygu ein bod yn gorfod teithio 420 milltir dros y tir, hedfan 17,200 milltir a hwylio 'chydig dros 4,500 milltir.

O Santiago, Chile cychwynnom ni'r daith trwy hedfan i Punta Arenas i ymuno â llong Norwyaidd, yr *MS Fram*, gan adael Culfor Magellan ar 1 Rhagfyr ar y ffordd i Ynysoedd Falkland.

Tiriogaeth tramor Prydeinig ydi Ynysoedd Falkland, ac mae'r ynysfor yn cynnwys tua 750 o ynysoedd o wahanol feintiau; yr un fwyaf ydi Dwyrain a De Falkland, sydd yn ne Cefnfor Iwerydd, tua 300 milltir i'r dwyrain o drwyn De America, a 750 milltir i'r gogledd o drwyn Penrhyn Antarctica. Gyda'i gilydd, mae'r ynysoedd tua ⅔ maint Cymru. Mae hanner preswylwyr Ynysoedd Falkland wedi'u geni ar yr ynysoedd a'r gweddill yn cynnwys mwy na 70 o genhedloedd gwahanol.

Stanley ydi'r brifddinas (mae'n ddinas ers 2022), a'r unig bapur newydd ydi'r *Penguin News*, sydd ar werth bob dydd Gwener. Yr arian ydi punt Falkland sy'n gyfwerth â phunt y Deyrnas Unedig, a derbynnir y ddau yno.

Ystyrir Ynysoedd Falkland yn fangre pwysig ar gyfer bywyd gwyllt, yn enwedig adar, ac mae'n gartref i 5 gwahanol rywogaeth o bengwiniaid – King, Southern Rockhopper, Magellan, Gentoo a Macaroni. Mae 'na hefyd forloi Eliffant, Morlewod a 65% o adar Albatros Du Cefngrwm y byd. Y ddwy rywogaeth frodorol yn y Falklands ydi'r hwyaden Steamer a'r dryw Cobb.

Y lle cyntaf i ni lanio ddechrau Rhagfyr oedd New Isand, ym mhen pellaf gogledd orllewin yr ynysoedd. Roedd yn rhaid i ni lynu wrth fesurau bio-ddiogelwch caeth – mi ddaeth o'n orchwyl dyddiol i ni, cyn ac ar ôl pob glaniad. Roedd hyn i atal lledaenu ffliw adar, ac yn ddiweddarach ar y daith, atal cyflwyno rhywogaethau o lystyfiant ymledol drwy drosglwyddo hadau ar ein hesgidiau a'n dillad.

Yma treuliasom ni amser yn teithio i weld digonedd o fulfrain, Albatros Du Adeiniog a Rockhoppers. Gwelsom ni fam hwyaden Steamer yn gofalu am ei theulu'n llwyddiannus drwy gadw Caracara barus draw – wel, am yr amser oeddem ni'n ei gwylio beth bynnag! Hefyd dryw Cobb bychan anodd ei ddal!

Yn hwyrach yn y dydd, gwelsom bengwiniaid Magellan ar Ynys West Point – y mwyafrif yn sefyll y tu allan i'w tyllau'n gwylio ni'n agosáu mewn cychod zodiac. Aeth 3 pengwin am nofiad chwim, a mwynhau'r rhyddid, a chael bwydo rhwng deor yr wyau. Yn uchel ar y bryniau, roedd heidiau o Albatros a Rockhoppers eraill yn eistedd ar eu nythod, heb aflonyddu dim oherwydd y gwylwyr dynol. Ar ein taith yn ôl, allen ni ddim peidio â meddwl mor fendithiol oedd ein hamser efo'r anifeiliaid hynny.

Y diwrnod canlynol, dyma ni'n glanio ar Ynysoedd Saunders a Carcass a gweld rhyfeddodau'r bywyd gwyllt – roedd gweld Pengwiniaid yn siglo cerdded rhwng y gwartheg yn reit ryfedd.

Mae gan y Falklands ddigon o gefndir a hanes – i bobl hŷn yn ein plith, mae Rhyfel Ynysoedd Falkland, Ebrill 1982 yn dal yn fyw iawn yn y cof. Mi barodd y rhyfel am 74 diwrnod a chafodd dros 900 o bobl, yn cynnwys milwyr o Brydain, eu lladd. Un o'r

# Gwireddu breuddwyd (rhan 1): parhad

rhain oedd y gwarchodfilwr Peter Edwards o Landyrnog, oedd ar long y *RFA Sir Galahad* pan ddioddefodd ymosodiad dinistriol gan awyrennau'r Ariannin ar Fehefin 8fed, 1982.







Ar Ragfyr 5ed, glaniodd ein llong ni ym Mhort Stanley, ac aethom i weld Wal Goffa 1982 – amser digon teimladwy ac emosiynol oedd hwnnw wrth i ni ddarllen drwy'r rhestr faith o'r rhai fu farw. Roedd enw Peter ar y plac ar y wal, wrth gwrs. Doedd y Wal Goffa ddim yn bell o gofgolofn arall rownd y gornel, Thatcher Drive – yn coffáu gwaith y Prif Weinidog ar y pryd. Mae gan lawer o filwyr lleol, yn wŷr a gwragedd, sydd wedi bod ar ddyletswydd yn Ynysoedd y Falklands, fwy o ddealltwriaeth o'r sefyllfa, a mwy o straeon digalon ac anodd eu hadrodd. Does neb yn ennill mewn rhyfel.

Gallwch chi brofi tywydd y 'pedwar tymor yma mewn awr' – ac mi wnaethon ni hefyd. Er ei bod hi'r diwrnod hiraf mewn ychydig ddyddiau, dim ond 2 °C oedd hi a gwynt digon cryf. Un funud yn heulog ac awyr las, munud nesa'n gymylog a chawodydd o eira, ac ymhen chwarter awr, awyr glir.

Tra roedden ni yno, aeth Steve i gartref Mensun Bound i gael sgwrs ac arwyddo llyfr gyda'r fforiwr wnaeth arwain ymgyrch i ddod o hyd i'r llong Endurance (llong Ernest Shackleton) yn 2022. Gwnaed ffilm ddogfen o hanes camp anhygoel Shackleton a'i griw i oresgyn pob anhawster, ac, wrth gwrs, hanes chwilio am y llong oedd wedi suddo 10,000 o droedfeddi dan rew trwchus Weddell Spa!

Ddiwedd y pnawn, cawsom y bws nôl at y llong. Yn ôl pob golwg, mae gan breswylwyr yr Ynysoedd mwy nag un swydd – roedd gyrrwr ein bws ni yn berchen ar fferm lysiau, 32 acar!

Gadawsom y bae drwy'r 'Narrows' a hwylio i'r lle nesa' ar y daith – Ynysoedd unigryw South Georgia … i'w barhau…

*Helen Juckes-Hughes*


**GLYN EVANS AUTOCLINIC**

**Canolfan Trwsio Ceir**

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA

GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

**01745 815141**
**07808970364**

# Lleuadau llawn



Oeddech chi'n ddigon ffodus i weld lleuad lawn gynta 2025 yn goleuo'r awyr wrth ymyl y blaned Mawrth nos Lun, 13 Ionawr? Oeddech chi'n gwybod mai'r enw ar y lleuad lawn yma oedd Lleuad Blaidd, a bod enw arbennig i leuad lawn bob mis?

Dros y blynyddoedd mae pobl wedi rhoi enw i bob lleuad newydd yn ôl gwahanol agweddau ar fywyd y mis pan maen nhw'n ymddangos. Mae enwau'r lleuadau llawn yn deillio o wahanol ffynonhellau (gydag enwau gwahanol weithie) ond yn bennaf o draddodiad Americaniaid Brodorol oherwydd eu ffordd o fyw. Roedd cylch gweddau'r lleuad yn ddull yr un mor bwysig o gadw amser â chylch solar hirach y flwyddyn.

**Ionawr – Lleuad Blaidd**: pan oedd y bleiddiaid yn udo o newyn yn ystod misoedd y gaeaf (gelwir hefyd yn Hen Leuad a Lleuad Iâ)

**Chwefror – Lleuad Eira**: – achos yr eira trwm yn gorchuddio'r ddaear yng Ngogledd America

**Mawrth – Lleuad Mwydod**: - y ddaear yn dechrau dadmer ac ôl mwydod yn dod allan o'u gaeafgwsg

**Ebrill – Lleuad Binc**: blodau gwyllt pinc cynnar yn dechrau blodeuo

**Mai – Lleuad Blodau**: diolch am flodau'n blodeuo'n helaeth

**Mehefin – Lleuad Mefus**: mefus yn aeddfed i'w cynaeafu

**Gorffennaf – Lleuad Bwch**: mae'r ceirw gwrywaidd yn bwrw eu cyrn bob blwyddyn ac yn cychwyn eu haildyfu yng Ngorffennaf

**Awst – Lleuad Stwrsiwn**: adeg pan fo pysgod stwrsiwn yn doreithiog mewn dyfroedd penodol

**Medi – Lleuad Cynhaeaf/Ŷd**: adeg cynaeafu cnydau ar ddiwedd y tymor haf

**Hydref – Lleuad yr Heliwr**: adeg pan oedd diwylliannau hynafol yn hela i baratoi ar gyfer y gaeaf i ddod

**Tachwedd – Lleuad yr Afanc**: adeg pan fo afancod yn paratoi ar gyfer y gaeaf sy'n agosáu trwy adeiladu eu hargaeau a'u cytiau

**Rhagfyr – Lleuad Oer**: tymor y gaeaf yn dwysáu a thymheredd yn gostwng yn sylweddol.

Fodd bynnag, gan fod calendrau'r lleuad a chalendrau modern o wahanol hydoedd, ambell dro mae mwy na 12 lleuad lawn mewn blwyddyn. Cyfeirir at y lleuad lawn ychwanegol fel Lleuad Las – er nad ydi hi'n lliw glas!


DBP

Denbigh Building Plastics

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**

# Teyrnged i Robyn William Dowell




Ar 17 Ionawr, daeth teulu a ffrindiau at ei gilydd i ddathlu bywyd Robyn William Dowell – Rob neu Dowell i nifer o bobl. Dyn ddaeth â chwerthin, direidi, ac atgofion bythgofiadwy lle bynnag yr âi. Yn dilyn y gwasanaeth yn Amlosgfa Llanelwy, daeth cannoedd o bobl i Glwb Rygbi Rhuthun i'r 'te claddu' – achlysur llawn hwyl, storïau ac atgofion melys. Wedyn parhaodd y dathliadau yn y Golden Lion, Llandyrnog, lle bydd colled fawr ar ôl Rob – y cymeriad hoffus a phoblogaidd oedd yn llenwi'r lle.

Fe'i ganwyd 12 Mawrth, 1958, yn fab i Bill a Sheila Dowell. Roedd ei dad yn saer medrus, ac mi ysbrydolodd Rob i ddilyn ôl ei draed. Cafodd ei gyflymder anhygoel gan ei fam, oedd mor heini a chyflym. Magwyd Rob, a'r gweddill – Bryn, Wyn, Clwyd, Del a Rhys yn Rhuthun.

O ddyddiau cynnar, roedd gallu athletaidd Rob yn amlwg. Roedd yn sbrintiwr talentog dros ben, ac unwaith, mewn cystadleuaeth ym Mharc Eirias, Bae Colwyn, rhedodd 100 metr mewn 10.7eiliad – anhygoel. Ar yr un pryd, cafodd ei enw ar y bwrdd arddangos am ei wrhydri ym Mharc Eirias, Bae Colwyn! Roedd ei sgiliau pêl-droed hefyd yn chwedlonol – byddai'n gwibio i lawr yr asgell mor benderfynol wrth chwarae i Dref Rhuthun a Llandyrnog. Mae ei gyd-chwaraewyr a'i ffrindiau'n dal i wenu wrth adrodd straeon am ei gardiau coch, a'i ddiffyg parch chwareus wrth anwybyddu'r rheol cam-sefyll – ond wnawn nhw byth anghofio ei dalent, ei angerdd, a'i synnwyr digrifwch ar y cae, ac oddi arno.

Roedd bywyd Rob yn ddigon anodd. Yn 1995, newidiodd gwaedlif ar yr ymennydd bopeth, a rhoi terfyn ar ei yrfa fel saer a phêl-droediwr. Ond doedd dim pall ar wytnwch a synnwyr digrifwch Rob. Mi wynebodd anawsterau bywyd yn ddiffwdan, gan ysbrydoli llawer oedd yn ei adnabod. Er iddo golli ei olwg bron i gyd, roedd yn syfrdanu pawb â'i sgíl yn y cynghreiriau pŵl a dartiau – yn enwedig pan oedd yn troi fyny gyda'i ffon wen a'i gi tywys, Alba, wrth ei ochr.

Roedd Alba, ei 'gymar benywaidd benfelen' ffyddlon, yn rhan fawr o fywyd Rob, ac roedd y cwlwm rhyngddyn nhw'n arbennig iawn. Roedd hi gydag o ym mhobman a'i phresenoldeb llonydd yn tawelu personoliaeth fywiog Rob. Buan y daeth hi, fel Rob, yn rhan annatod o'r gymuned.

Roedd Rob yn ddyn cerddorol, yn aml wrth ei fodd yn bloeddio canu *Ring of Fire* ar noson karaoke neu'n canu unawdau yng Nghôr y Porthmyn gyda Bov ar yr organ. Fo oedd ein fersiwn lleol ni o John Wayne, efo'i esgidiau a'i het cowbois, a'i hoffter o 'Westerns'. Roedd ei ddywediadau byr, bachog, a'i bersonoliaeth anferth yn dod â llawenydd i bawb a ddôi i gysylltiad ag o, ac roedd ei hoffter o 'chwerthin yn iach' yn heintus.

Er bod ganddo natur chwareus, roedd ei gariad tuag at ei deulu'n amlwg i bawb. Roedd o mor falch o'i feibion Jamie a Ben, ac yn addoli'r wyrion – Levy, Jasper, Max a Rylan. Yn fwy diweddar yn ei fywyd, daeth hapusrwydd i Rob gyda Dora, ei bartner a'i ffrind gorau, a fu mor ofalus ohono gyda'i chariad a'i hamynedd diwyro. Hi oedd craig ei fywyd, a bu ei chefnogaeth yn gysur mawr iddo yn ei flynyddoedd olaf.

Mae marwolaeth Rob wedi gadael bwlch mawr ym mywydau ei deulu, ei ffrindiau, a'r gymuned gyfan, ac roedd y gynulleidfa fawr a ddaeth i Glwb Rygbi Rhuthun yn dyst i'w gymeriad hynaws. Bydd y storïau a rannwyd yng Nghlwb Rygbi Rhuthun a'r Golden Lion yn parhau yn y cof am flynyddoedd lawer.

Gorwedd yn dawel Rob. Roedd gennyt draed cyflym, tafod miniog, ac yn fythgofiadwy mewn cymaint o ffyrdd. Bydd y chwerthin, yr atgofion a'r storïau'n cadw'r cof amdanat yn fyw yng nghalonnau pawb.

*Merfyn Parry*

# Ein taith i Seland Newydd

Roeddem wedi sôn am fynd i Seland Newydd ers blynyddoedd, felly ar ôl i'r ddau ohonom ymddeol dyma ddechrau meddwl o ddifri a chychwyn ar ein taith ar Dachwedd 6ed. Hedfan i Singapore ac aros yno am dair noson. Dinas braf iawn, poeth ac eithriadol o lân. Roedd y Gerddi Botaneg a'r casgliad tegeiriannau cenedlaethol yn drawiadol a hefyd y bwydydd blasus yn y marchnadoedd.

Hedfan wedyn i Auckland ar ynys ogleddol Seland Newydd a chael dwy noson yno cyn llogi car am dair wythnos a hanner.

Y stop cyntaf oedd ger Hamilton i ymweld â Marc a Nia – cwpwl o Ddyffryn Conwy sy'n ffermio ac yn byw yno gyda'u pedwar o blant ac a fu ar raglen *Cefn Gwlad* dros y Nadolig. Cawsom dreulio pnawn difyr iawn yn eu cwmni a chroeso mawr.

Teithio i Rotorua, lle mae *geysers* poeth yn tasgu i'r awyr ac arogl *sulphur* yn yr aer o'r pyllau thermal sy'n britho'r ardal. Un peth arbennig a welsom yno oedd gorymdaith Maori yn gwrthwynebu bod y Llywodraeth yn bwriadu trafod cytundeb fyddai'n rhoi llai o hawliau iddyn nhw. Roedd golwg ddigon ffyrnig arnyn nhw a grŵp yn gwneud yr Haka yn eu harwain!



Ymlaen wedyn i Barc Cenedlaethol Mynydd Taranaki cyn cyrraedd Wellington er mwyn croesi ar y fferi i Ynys y De. Taith braf a Chulfor Cook yn las, las.

Aros yn Blenheim a chawsom brynhawn yn blasu gwin yn Nyffryn y Wairau yn ardal enwog Marlborough a chael cwmni difyr cwpwl o Virginia a chwpwl o Brisbane ar fws mini.

I'r Gorllewin wedyn ac roeddem wedi bwriadu teithio i lawr ffordd yr arfordir i Queenstown ond roedd y ffordd wedi cau oherwydd tir lithriad a gorfu i ni ail feddwl a theithio ar hyd Arthur's Pass a heibio Llyn Tekapo – lle hardd a chofiadwy iawn oherwydd lliw glas y dŵr a'r aceri o fysedd y blaidd yn tyfu ar y lan.




Cawsom gip ar Mount Cook a'r eira ar ei gopa cyn cyrraedd Queenstown.
Aros yma am bedair noson – dinas braf a hanes difyr gan mai un o Hwlffordd, sef William Gilbert Rees oedd y cyntaf i adeiladu tŷ yma yn 1836 ac y mae cofgolofn iddo yn y dref lle roedd yn ŵr dylanwadol ac uchel ei barch. O Queenstown, cawsom daith diwrnod ar fws i Milford Sound a chael trip mewn cwch yn agos i'r rhaeadrau trawiadol.

Ar draws wedyn i'r dwyrain. Un o'r uchafbwyntiau yma oedd yn Oamaru lle gwelsom dros 200 o bengwiniaid glas yn dod i mewn o'r môr wrth iddi nosi a phasio o fewn ryw ddwy lath i ni.

Gorffen ein hantur yn Seland Newydd yn Christchurch. Dinas anhygoel gyda'r adeiladau hynafol a modern yn plethu i'w gilydd yn gelfydd ar ôl yr ail adeiladu yn dilyn y ddaeargryn erchyll yn 2011. Roedd ymweld ag amgueddfa Quake City a gwrando ar dystiolaeth rhai o'r trigolion yn ddirdynnol a

## Seland Newydd: parhad



gweld y wal farmor wen gydag enwau'r 183 gafodd eu lladd arni. Adeilad arall trawiadol oedd yr 'Eglwys Gardfwrdd' (uchod) – eglwys fodern, syml dros dro a phrofiad rhyfedd oedd cael tynnu llun hefo golygfa'r preseb a finne'n gwisgo siorts! Yr un modd, roedd y strydoedd yn llawn o goed ac addurniadau Nadolig a hithau'n 35 gradd!

Y noson olaf cyn cychwyn am adre, braf iawn oedd cael cyfarfod Lowri, Galchog a'i phartner Vin (merch Emyr a Nan Lloyd, Rhuthun) a chael amser difyr iawn yn eu cwmni. Diweddglo hyfryd iawn i fis cofiadwy ym mhendraw'r byd!

*Iona Davies*

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

## Tuesday Club

Cafodd aelodau'r Tuesday Club sgwrs lawn gwybodaeth yng nghyfarfod mis Ionawr gan Eleri Jones o Gyngor ar Bopeth. Rhoddodd yr aelodau ar ben ffordd ar sut i hawlio'r lwfansau a'r budd-daliadau sydd ar gael. Enghreifftiau o'r rhain oedd y lwfans gweini, lwfans gofalwr, gostyngiadau ychwanegol yn nhreth y cyngor, a chredyd pensiwn. Mae Cyngor ar Bopeth yn helpu i lenwi ffurflenni ac yn helpu i roi gwybod pa fudd-daliadau y cewch chi eu hawlio.

Mae swyddog Cyngor ar Bopeth yn dod i ystafell gymunedol siop y pentre ar fore Gwener, o 10 tan 12 o'r gloch. Galwch heibio am gyngor cyfeillgar, diduedd, defnyddiol a chyfrinachol. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Eleri Jones ar 01824 719623 neu advice@dcab.co.uk.

Ar ôl sgwrs Eleri, gweinwyd paned a bisgedi, a thynnwyd y raffl. Atgoffwyd yr aelodau y bydd y cyfarfod nesaf bnawn dydd Mercher, 19 Chwefror.



**Cadwch eich ci ar dennyn bob amser os gwelwch yn dda,** yn enwedig mewn ardaloedd lle mae anifeiliaid neu fywyd gwyllt. Mae hyn yn holl bwysig yn ystod y cyfnod wyna ac i ddiogelu adar sy'n nythu ar y ddaear.

Pwyntiau allweddol:

- Mae gadael i'ch ci aflonyddu neu redeg ar ôl anifeiliaid yn dramgwydd troseddol all arwain at drosedd cyfreithiol. Mae hawl gan ffermwyr amddiffyn eu hanifeiliaid – sy'n golygu saethu cŵn sy'n aflonyddu anifeiliaid
- Gall cŵn sydd ddim ar dennyn niweidio bywyd gwyllt, yn enwedig adar sy'n nythu ar y ddaear

Diogelwch eich cŵn ac anifeiliaid a bywyd gwyllt drwy ymddwyn yn gyfrifol.

# Capel y Dyffryn

**Y Gymdeithas** Nos Lun 6 Ionawr cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi bendithiol iawn yn y Festri.

Nos Lun, 20 Ionawr, cyflwynodd Dafydd Evans Cledwyn (Cled) Ashford, cyn-sgowt pêl-droed gyda thimau fel Man Utd, Lerpwl, Everton, nawr yn sgowtio i Glwb Pêl-droed Wrecsam. Sgwrs ddiddorol a dadlennol dros ben. Disgrifiwyd Cled unwaith fel 'cymeriad chwedlonol Gogledd Cymru yn natblygiad talentau ifanc yn y rhanbarth'. Diolchwyd i bawb gan Hywel.




Penblwydd hapus i Gwenan a Meilir, Pen y Bryn yn 21 oed ar 18 Ionawr.

**Gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| 02/02 | 9.45 | Cyfarfod gweddi |
| 09/02 | 11.00 | Parch Andras Iago |
| 16/02 | 10.00 | Oedfa'r Fro – Llanrhaeadr |
| 23/02 | 9.45 | Arwel Emlyn Jones |

**CROESO MAWR I BAWB SY'N BYW YN YR ARDAL I YMUNO EFO NI YN YSGOL SUL Y DYFFRYN, DDYDD SUL, CHWEFROR 16, AM 1:30!**

# Y Gymdeithas Hanes

Daeth nifer helaeth i gyfarfod Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan nos Fercher, 15 Ionawr, yn y Neuadd i weld y ffilm *The Lady in the Wardrobe* – gyda phopgorn hefyd!

Daeth yr aelodau ac ymwelwyr i wybod pwy oedd y Wraig, be oedd hi'n ei wneud yn y Wardrob a be ddigwyddodd iddi, A …….. roedd yna dro annisgwyl yng nghynffon y stori!

Mae Tony Griffiths, yn gwneud ffilmiau dogfen lleol nodedig, ac mae ganddo hefyd fusnes a siop stiwdio portread a fframio lluniau yn Stryd y Bont, Dinbych. Cyflwynodd Tony y ffilm a gynhyrchodd o dan yr enw North Wales Film Makers, gyda chymorth ffrindiau da a gwirfoddolwyr lleol. Roedd rhai o'r actorion lleol yn bresennol ar y noson. Mae'r ffilm yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac ar ôl hynny.



Bydd cyfarfod nesa'r gymdeithas Nos Fercher 19 Mawrth, pan fydd Paul Evans yn rhoi sgwrs ar Thomas Pennant, naturiaethwr, teithiwr ac awdur.

Mae croeso i bawb i gyfarfodydd y gymdeithas, gydag aelodau ddim ond yn talu £8 am raglen flynyddol o 4 cyfarfod ac ymwelwyr/eraill £3 y cyfarfod. Darperir lluniaeth ysgafn ar ddiwedd pob cyfarfod.

Am ragor o fanylion, ymholiadau, i ymuno â'r gymdeithas neu wirfoddoli i fod yn rhan o'r prosiectau, e-bostiwch Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan ar llangwyfanhistory@hotmail.com os gwelwch yn dda.

# Bydd y Sioe yma eto cyn bo hir

Falle fod sgwennu am y sioe ym mis Ionawr yn swnio braidd yn od pan mae llawer ohonom heb wneud dim byd yn yr ardd. Ond mewn chydig wythnosau, bydd y broses yn dechrau o gynllunio ar gyfer ein sioe ddiwedd Awst.

Mae llawer o waith trefnu i'w wneud, ac yn fwy na dim, codi arian gan hysbysebwyr a noddwyr – hebddyn nhw, fyddai 'na ddim sioe. Os aiff popeth yn iawn, y canlyniad fydd sioe lwyddiannus, llawer mwy a gwell na fyddech yn disgwyl o bentre maint Llandyrnog! Mae'n siwr y byddwn i fel ysgrifennydd yn dweud 'na beth bynnag!

Bydd llawer o'r gwaith yn cael ei wneud yn ôl yr arfer; mae'r grŵp bach yn gwybod be sy angen ei wneud a phryd, ond bydd un gwahaniaeth mawr eleni, gan fod John Rowlands wedi camu i lawr o fod yn Gadeirydd. Wrth lwc, byddwn yn dal i elwa o'i fewnbwn a'i brofiad, ond rydym yn chwilio am rywun i ddod yn ei le. Yn ddelfrydol, rydyn ni chwilio am rywun sy'n nabod y pentre'n dda, yn medru arwain y sioe ar y diwrnod, yn ddwyieithog ac â diddordeb mewn garddio. Beth bynnag, does yr un o'r rhain yn hanfodol gan na fydd raid i'r person newydd fod yn 'replica' o John (allai neb fyth fod yn hynny!).

Efallai y byddai rhywun sy'n darllen hwn yn fodlon ymgymryd â'r swydd, neu falle'ch bod chi'n gwybod am rywun fyddai'n addas. Os felly, siaradwch â nhw. Does dim rhaid i hwn fod yn ymrwymiad am oes, byddwn yn hapus pe bai rhywun yn ymgymryd â'r dasg am ryw ddwy flynedd. Bydd John yn falch o sgwrsio am drefn diwrnod y sioe. Os oes rhywun angen sgwrs anffurfiol am y swydd, yna mae croeso i chi gysylltu â John ar 07879 813940 neu finnau yn Cross Keys, 01824 790768 neu llandyrnogshow@gmail.com. Byddwn hefyd yn croesawu gwirfoddolwyr newydd i'n grŵp, yn enwedig y rheini sy â phrofiad o godi arian trwy hysbysebu.

*Roger Warner, Ysgrifennydd y Sioe*

# Ysgol Bryn Clwyd


Dechreuodd y Dosbarth Iau gael gwersi ukulele gan Gerdd Cydweithredol Sir Ddinbych ddechrau'r flwyddyn. Roedd pawb wrth eu bodd cymaint roedden nhw'n cyd-chwarae gyda Bob Marley erbyn diwedd y sesiynau.



Mae Nel y ci wedi bod yn ôl yn yr ysgol yn gwrando ar y plant yn darllen. Diolch Mrs. Godfrey am ddod â'r ci i'r Ysgol.



Mae'r Babanod wedi bod yn dysgu sut i ganmol yn Gymraeg ac wedu gosod arwyddion canmol arbennig o gwmpas yr ysgol.



# Hanesion Hazel

Mae 'na amser ym mis Chwefror i weithio ar brosiectau mawr, ac eleni, roeddwn i eisiau canolbwyntio ar yr ardd ffrynt sydd bob amser yn cael ei hesgeuluso. Mae gwrych ffawydd gefngefn â'r lôn, a gwrych celyn hir rhyngddon ni â drws nesa. Mae 'na ardd fawr wedi'i chodi yno, a'r hen 'fecws' o'r golwg bron dan hen eiddew, jasmin a barf yr hen ŵr.

Am fod yr eiddew wedi gwthio allan rai o gerrig yr hen risiau sy'n mynd i fyny i'r llawr ucha, maen nhw wedi syrthio a thorri'n ddarnau. Mae'r Llawryf, y Goeden Fêl, a'r Berberis, yn cuddio'r gwely wedi'i godi – ac mae'r Ffug-oren 'fach' brynes i o'r Feithrinfa wedi tyfu'n anferth! Ta waeth, cyn i mi ddechre'r gwaith, ac am fod y tywydd yn rhy oer i fod allan, mi ges i job y tu mewn – cynnal a chadw'r tŵls tocio – y *secateurs*, y tociwr a'r siswrn.

Ond dydi'r secateurs druan ddim wedi bod yn gweithio'r un fath ar ôl rhyw 'ddigwyddiad' dro'n ôl – cael eu defnyddio i agor bag sment!! Dydw i ddim yn pwyntio bys at neb – cwbl ddweda i ydi 'nad fi oedd ar fai'!! Roeddwn i mor ddigalon – ond gan nad oedd y boi yn arddwr, doedd dim posib iddo wybod cymaint o ffrind ydi'r *secateurs*. Mi rois ddigonedd o WD40 arno, ei oelio a'i lanhau'n iawn ac mae'r colyn wedi 'stwytho, diolch byth.

Mi allwch chi finio llafn y rhan fwyaf o bethe efo gwlân dur neu gadach emery, ac mae'n cael gwared â'r rhwd. Dw i wedi etifeddu carreg hogi dda, ond does dim i'w gymharu â'r garreg fawr gron oedd yn sownd i siafft PTO (*power take off*) yng nghefn hen dractor. Roedd hwn â digon o bŵer i droi'r olwyn fel Jehu – ond roedd o'n hogi'n dda.

Y dyddie hyn, mi fyddai hwn yn torri rheolau 'iechyd a diogelwch' – ond wrth gwrs ers talwm doedd dim sôn am y fath beth. Doedd neb yn gwisgo PPE (offer amddiffyn personol), a doedd dim gard o'i gwmpas.

Unwaith y flwyddyn, byddai 'nhad yn mynd â'r tŵls garddio i gyd at ein cymydog er mwyn cael defnyddio'r peiriant marwol yma. Roedd y job yn haws o lawer ac yn llai o ymdrech na hogi efo calan hogi. Opsiwn arall oedd defnyddio llyfnwr-ongl. Ond dydi hwn chwaith ddim i'r gwangalon – galla i ddeud o brofiad bod hwnnw hefyd reit ddychrynllyd! Y dyddie yma, mi fydda i'n defnyddio menig cry' a sbectols diogelwch. Cofiwch, peidiwch byth bythoedd â gweld os oes digon o fin ar y llafn efo'ch bysedd! Dim ond tynnu llaw yn ofalus ar hyd y llafn efo'ch bys ar ongl 90 gradd!



O'r diwedd, roeddwn i'n barod i gychwyn ar yr ardd ffrynt. Ond roedd angen tŵls cryfach – ffwrdd â fi at ddyn cyfeillgar efo lli' gadwyn, ac mi wnaeth o'r gwaith caled i gyd i mi. A rŵan bod yr ardd yn wag, mi alla i gael gwell syniad o sut fath o lwyni a gweiriau addurnol i'w rhoi ynddi. Gan fod y gwely'n sychu'n fuan yn yr haf, dw i'n meddwl mai'r dewis gorau fydd gwahanol weiriau Miscanthws. Mae'r rhain, efo'u clystyrau o flodau pluog, yn gallu bod yn syfrdanol o bensaernïol, ac yn rhoi arddangosfa wych o wahanol liwiau erbyn diwedd yr haf. Falle'r a' i hefyd am rai o'r Cornws a'u coesau o liwiau dramatig yn y gaeaf. Mae gen i awydd mawr i fynd am drip i'r ganolfan arddio eto – neu bori ar-lein, neu efallai y bydd stondinau mewn digwyddiadau lleol yn cynnig bargeinion!!

Hazel

# Tom yn rhedeg marathonau eithafol

**Be ’di dy hanes cynnar di?**

Cefais fy magu ar fferm y teulu, Pentrefelin, ac mae gen i lawer o atgofion melys o fy mhlentyndod yng nghefn gwlad. Fel y trydydd o bump o frodyr a chwiorydd, roedd bywyd ar y fferm bob amser yn brysur ac yn llawn egni. Er fy mod i wrth fy modd yn byw yno, sylweddolais yn ifanc nad oedd ffermio yn yrfa roeddwn i eisiau ei dilyn. Ar ôl gorffen yn yr ysgol uwchradd yn Ysgol Brynhyfryd, penderfynais astudio Daearyddiaeth y Môr ym Mhrifysgol Caerdydd, lle tyfodd fy angerdd am yr amgylchedd. Heddiw, rwy’n athro Daearyddiaeth sy’n byw yng Nghaerfyrddin ac yn gweithio ym Mhort Talbot, ac rwy’n ddiolchgar am y profiadau sydd wedi llywio pwy ydw i heddiw.


**Pryd gychwynnodd dy ddiddordeb mewn chwaraeon, yn enwedig rhedeg?**

Rydw i wedi bod yn hoff iawn o chwaraeon ers pan oeddwn i’n ifanc, gan chwarae pêl-droed a rygbi i dimau ieuenctid Rhuthun. Roedd chwaraeon yn rhan fawr o fy mywyd wrth dyfu i fyny, ac fe ddysgodd i mi bwysigrwydd gwaith tîm a chyfathrebu. Yn ystod y cyfnod clo, dechreuais redeg i gadw’n actif. Sbardunodd y cariad newydd hwn at redeg ddiddordeb mewn triathlonau, a dechreuais gymryd rhan mewn rasys. Ers hynny, mae triathlon wedi dod yn rhan fawr o fy mywyd, gan fy ngwthio i herio fy hun ac aros yn heini.

**Beth am y sialens fawr?**

Yn ddiweddar, cefais y profiad anhygoel o redeg fy ultra-marathon cyntaf – ras 100 milltir (a dros 6,000 metr o ddringo!) y Beacons Way ym Mannau Brycheiniog. Heb os, dyma’r ras anoddaf i mi ei rhedeg erioed. Er gwaethaf yr





heriau, mwynheais y profiad yn fawr a gwthiais fy hun ymhellach nag yr oeddwn yn meddwl oedd yn bosibl. Er mawr syndod i mi, croesais y llinell derfyn yn gyntaf, gan gwblhau’r ras mewn 25 awr a 50 munud. Roedd yn brofiad bythgofiadwy – ac rwy’n hynod o falch o’r gefnogaeth ges i gan deulu a ffrindiau ar hyd y ffordd.

**Be ydi’r sialens nesa?**

Ar ôl cwblhau ultra-marathon y Beacons Way, rwy’n anelu am gwblhau her hyd yn oed yn fwy – ras Mont Blanc UTMB. Mae’n un o’r rasys mwyaf mynyddig a chaletaf yn y byd, yn ymestyn dros 106 milltir ac yn cynnwys dros 10,000 metr o ddringo. Mae’r llwybr yn mynd â rhedwyr trwy dirweddau mynyddig Ffrainc, yr Eidal a'r Swistir. Byddwn wrth fy modd yn profi’r cyfeillgarwch a’r gwytnwch sy’n dod gyda ras mor heriol, a byddai croesi’r llinell derfyn yn freuddwyd i mi.

*Tom Foulkes,*
*gynt o Fferm Pentrefelin*



# Taith De Affrica a Namibia

Dros bythefnos yn Nhachwedd a Rhagfyr roeddwn yn ddigon ffodus i fod yn rhan o grŵp o 20 ohonom o bob cornel o Brydain gafodd fynd i Dde Affrica a Namibia. Cychwynnais y daith drwy hedfan o Heathrow i Cape Town a threulio dau ddiwrnod yn y ddinas i ddod i adnabod y grŵp a hefyd i fynd o gwmpas ychydig o'r ddinas. Roedd hi'n ddinas hynod braf a'r tywydd tua 35 gradd a buom yn cerdded rownd y farchnad a threulio'r prynhawn ar y traeth. Cawsom weld y 'Table Mountain' sef glamp o fynydd sydd ậ chopa fflat arno ond gyda'r gwres mor uchel, aethon ni ddim i'w ddringo.



Y diwrnod canlynol, aethom i ardal Stellenbosch sydd i'r dwyrain, ac ardal win enwog De Affrica. Mae'n ardal hynod brydferth gyda gwinllannoedd yn tyfu pob math o rawnwin i fedru gwneud pob math o winoedd. Aethom i winllan Waterford a chael ein tywys o gwmpas gyda chinio 5 cwrs a blasu 6 o wahanol winoedd.

Ymlaen wedyn dros y diwrnodau nesaf i'r gogledd gyda'r gwres yn mynd yn uwch a'r aer yn mynd yn sychach. Dyma pryd gawsom fynd ar ein saffari cyntaf ac aros mewn *lodges* yn y warchodfa natur. Yr anifeiliaid cyntaf welais i oedd hippos, oedd yn hapus braf mewn llyn reit o flaen y *lodge*. Gwelsom hefyd eliffantod, rhinoseros, estrys, springboc, sebra, byfflo dŵr a llawer o fathau eraill o anifeiliad.

Symud ymlaen wedyn i wneud naid bwnji! Sef naid bwnji trydydd uchaf y byd! Roedd yn brofiad erchyll a chyffrous ar yr un adeg ac un bydda i'n hapus iawn i beidio wneud eto! Aethom wedyn i'r Addo National Reserve i weld swp o eliffantod a chael dreifio ein hunain o gwmpas i wneud saffari bore a saffari nos i weld llawer o eliffantod ond hefyd llawer o fathau gwahanol o anifeiliaid Affrica.

Wedyn, teithio ymhellach i'r gogledd a'r dirwedd yn dod yn boethach a mwy anial. Roeddem yn aros ar ffarm am noson lle doedd dim glaw wedi bod ers dros ddwy flynedd. Cawsom ganŵio tua 30km lawr yr Orange River, sef y ffin rhwng Namibia a De Affrica a chysgu dan y sêr – oedd yn brofiad anhygoel. Profiad arall bythgofiadwy oedd taith mewn balŵn aer poeth dros y diffeithwch. Y diwrnodau olaf wedyn, teithio ymhellach i mewn i Namibia a gorffen yn Windhoek, sef prifddinas Namibia gan aros yno am ddau ddiwrnod. Profiad bythgofiadwy ac wedi gwneud ffrindiau da iawn.

*Hywel Davies*



# Fi ’di Cedric yr Alpaca!



Helô! Fy enw i ydi Cedric!

Huacaya Alpaca 3 oed ydw i. Cefais fy ngeni yn Ne Cymru, ond wedi bod yn byw yma ers 2022 pan o’n i tua 6 mis oed, ac rydw i’n un o anifeiliaid anwes Edith a Mark. Brown tywyll ydi fy lliw, ond mae gen i ‘sanau’ gwyn a barf wen. Rydw i’n byw gyda fy ffrindiau Samuel, Dougal a Harvey, a gyda’n gilydd rydan ni’n cael ein hadnabod fel ‘gyr’. (Falle gwnan nhw gyflwyno eu hunain ryw ddiwrnod!)

Glaswellt a gwair ydi fy mhrif ddiet, ond weithie rydw i’n cael trît bach (sleisen o foron!), ac rydw i’n bwyta ychydig o fwyd sych alpaca – O, dwi’n MWYNHAU hwn yn fawr iawn! Pan glywa i ’mherchnogion yn paratoi’r bwyd yn y sied, rydw i’n llawn cyffro ac yn rhedeg o gwmpas fel plentyn mewn siop fferins! Mae’n llawn fitaminau a mwynau i neud yn siŵr fy mod yn tyfu’n iach. Wnes i sôn mod i’n mwynhau’r bwyd yma’n fawr?! Rydw i’n ei hoffi cymaint nes ’mod i’n llowcio fy nogn i’n gyflym, cyn rhedeg at gafnau bwyd y bechgyn eraill a cheisio dwyn eu bwyd nhw! Mae hyn yn achosi ffrae a weithie rydan ni’n poeri ar ein gilydd! Ydach chi’n gwybod ein bod ni’n cynhyrchu gwahanol fathau o boer? Yr un mwya cyffredin ydi ‘poer aer’, ble rydan ni’n ‘poeri’ aer fel rhyw fath o rybudd. Ond os nad oes angen hwn, rydym ni’n poeri stwff gwyrdd o’n boliau sydd yn drewi! Fel arfer dydan ni ddim yn poeri ar bobl, ond yn anffodus, rhyw ddiwrnod roedd Edith yn digwydd bod yn y lle anghywir ar amser anghywir, a chafodd ei dal yng nghanol y ffrae! Be sy’n ddoniol ydi, dim ond wedi picio allan i ddweud helô roedd hi cyn mynd i’r gwaith, ond roedd ei gwallt yn llawn poer gwyrdd!! O diar! Gorfu iddi fynd yn ôl i’r tŷ, a golchi ei gwallt dair gwaith cyn cael gwared o’r drewdod o’i gwallt hir! Nid oedd ei phennaeth yn credu ei rheswm am fod yn hwyr nes iddo weld y ffotograffau!!!

Mae gen i bersonoliaeth bowld a bob amser yn chwilfrydig – rydw i’n mwynhau llygadrythu ar y postmon wrth iddo gerdded lawr y llwybr, a rhedeg ar ôl wiwerod yn y padog. Yn yr haf, rydym ni’n mwynhau dipio ein traed yn y pwll padlo ac yn rholio rownd mewn baths llwch.

Wel rhaid i mi fynd rŵan – mae’n amser i mi fynd i gael llond ceg o wair!

Twdlpip!

*Edith Price*



# Crynodeb o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Ionawr o Gyngor Cymuned Llandyrnog

- Nid oedd swyddog cymorth cymunedol yr heddlu yn bresennol, ond roedd adroddiadau wedi dod i law am ymddygiad anghymdeithasol ar y maes chwaraeon yn hwyr nos. Bydd y swyddogion yn cael cais i gadw llygad ar y lle yn amlach.
- Roedd gan Wendy Jones o Cadwch Gymru'n Daclus sawl pecyn ar gael i dyfu llysiau ac mae ganddi ddiddordeb mewn bod yn rhan o broject y rhandir y tu ôl i Nant Glyd. Mae'r Cyngor Cymuned wedi trefnu cyfarfod ac mae'n disgwyl gwybodaeth am sut bydd y gymuned gyfan yn cael cymryd rhan yn y project.
- Roedd y fainc a fydd yn cael ei gosod gyferbyn â'r ffatri  i fod i gyrraedd yn ystod wythnos olaf mis Ionawr. Ond bydd angen gosod y sylfaen gyntaf, ac mae hyn yng ngofal Jones Bros.
- Efallai bydd angen ymweliad safle ynghylch y cais cynllunio am dŷ allan yn yr Old Coach House, Plas Bennett, a chyfeirio'r cais at Bwyllgor Cynllunio llawn Cyngor Sir Ddinbych.
- Problemau gyda dŵr yn dod i lawr y lôn heibio Cross Keys i Gapel Dyffryn. Er bod CSDd wedi delio â'r mater dros dro, mae angen datrys y broblem yn barhaol. Hefyd rhoddwyd cais i GSDd glirio'r ffosydd a'r draeniau ger Maes y Wern. Mae pryderon difrifol am gyflwr wyneb y ffordd tuag at Glan y Wern Isaf, yn bennaf oherwydd difrod gan ddŵr. Bydd y clerc yn riportio'r mater i'r Cyngor Sir a'r gobaith ydy y bydd y mater yn cael blaenoriaeth pan fydd adnoddau ar gael. Mae trigolion yng nghyffiniau Sgubor Efa yn anfodlon iawn â safon y gwaith llenwi'r tyllau yn y ffordd.
- Mae'r bont sy'n croesi'r nant ar ffordd Nant Lewis Alyn wedi cwympo ac mae'r Cyngor Sir yn holi i weld ai'r Cyngor sy'n gyfrifol am y ffordd ai peidio.
- Cafwyd cais am fin cadw graean ger Celynog, er mwyn i drigolion ei roi ar y ffordd mewn tywydd rhewllyd.
- Cyflwynwyd cais am braesept i'r Cyngor Sir ymhell cyn y dyddiad cau, a chafwyd cadarnhad ei fod wedi'i dderbyn.
- Y cyflenwad trydan i'r Ystafelloedd Coco – penderfynwyd cael y trydan gan BG Lite sy'n cynnig pris sefydlog am dair blynedd.
- Anogwyd pawb i bleidleisio yng nghystadleuaeth y Cynghrair Cefn Gwlad, gan fod siop y pentre a Thŷ Ceffyl Bach wedi'u henwebu mewn dau gategori gwahanol.

**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**
becky.gittins.mp@parliament.co.uk

hg web designs

rydym ni'n creu... we create....

gwefannau - websites!

www.hgwebdesigns.co.uk

01678 520882
07984 511164

Gwefannau proffesiynol, dwyieithog ar gyfer busnesau, sefydliadau ac ysgolion lleol.

Affordable, bilingual and professional websites for local businesses, organisations and schools.

hannah@hgwebdesigns.co.uk

*Argraffwyd gan Mike Neuman  www.neumannprintersdenbigh.co.uk 01745 814067*